# <u>AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU</u>

Cofnodion cyfarfod Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a gynhaliwyd ddydd Llun 16 Medi 2019 yn Siambr Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Bodlondeb, Conwy. Dechreuodd y cyfarfod am 10.30am.

**YN BRESENNOL**

| **Y Cynghorydd** | **Yn cynrychioli** |
|---|---|
| Peter Lewis (Cadeirydd) | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Dylan Rees (Dirprwy Gadeirydd) | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Bryan Apsley | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Marion Bateman | Cyngor Sir y Fflint |
| Brian Blakeley | Cyngor Sir Ddinbych |
| Meirick Lloyd Davies | Cyngor Sir Ddinbych |
| Ian Dunbar | Cyngor Sir y Fflint |
| Veronica Gay | Cyngor Sir y Fflint |
| Eric Wyn Jones | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Sue Lloyd-Williams | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Geoff Lowe | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Roger Parry | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Gareth A Roberts | Cyngor Gwynedd |
| Rondo Roberts | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Paul Shotton | Cyngor Sir y Fflint |
| Nigel Smith | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Adrian Tansley | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Owen Thomas | Cyngor Sir y Fflint |
| Gethin Glyn Williams | Cyngor Gwynedd |

**<u>Hefyd yn bresennol:</u>**

S A Smith (Prif Swyddog Tân a Phrif Weithredwr); C P Everett (Clerc a Swyddog Monitro'r Awdurdod); K W Finch (Trysorydd yr Awdurdod); R Fairhead a K Roberts (Prif Swyddogion Tân Cynorthwyol); H MacArthur ac S Morris (Prif Swyddogion Cynorthwyol); T Williams (Rheolwr Cyfathrebu Corfforaethol); H Howard (Pennaeth Cyllid); Ll Gutierrez-Jones (Rheolwr Adnoddau Dynol); P Hardwick (Rheolwr Cynllunio Corfforaethol); C A P Thomas a P Bass (Ysgrifenyddiaeth); M Georgiou (Swyddog Monitro, Cyngor Sir y Fflint).

1 YMDDIHEURIADAU

| **Y Cynghorydd** | **Yn cynrychioli** |
|---|---|
| Michael Dixon | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Ann Davies | Cyngor Sir Ddinbych |
| John Brynmor Hughes | Cyngor Gwynedd |
| Richard Griffiths | Cyngor Sir Ynys Môn |
| David Wisinger | Cyngor Sir y Fflint |

2 DATGAN BUDDIANNAU

2.1 Ni ddatganwyd unrhyw fuddiant.

3 RHYBUDD O FATERION BRYS

3.1 Nid oedd unrhyw faterion brys.

4 COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 17 MEHEFIN 2019

4.1 Cafodd cofnodion cyfarfod yr ATA a gynhaliwyd ar 17 Mehefin 2019 eu cyflwyno i'w cymeradwyo.

4.2 **PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cofnodion yn gofnod gwir a chywir.**

5 MATERION YN CODI

5.1 Fe wnaeth y Cynghorydd Davies longyfarch y Cadeirydd a'r Dirprwy Gadeirydd a rhoi ei ddymuniadau gorau iddynt yn eu swyddi newydd.

6 ASESIAD PERFFORMIAD BLYNYDDOL DRAFFT 2018/19

6.1 Fe wnaeth y PSC Morris gyflwyno'r ddogfen ddrafft i'r Aelodau, cyn iddi gael ei chyhoeddi ar wefan yr Awdurdod erbyn 30 Medi 2019. Mae'r Awdurdod wedi gwneud cynnydd da tuag at yr amcanion Gwella a Llesiant, a Chydraddoldeb, ac mae wedi cydymffurfio â holl safonau'r Gymraeg.

6.2 Fe wnaeth y Cadeirydd ganmol awdur yr adroddiad, Pippa Hardwick, am greu dogfen o'r radd flaenaf, ac awgrymodd bod yr holl Aelodau'n dosbarthu'r ddogfen ymysg eu cydweithwyr yn eu cynghorau sir eu hunain.

6.3 Gofynnodd y Cynghorydd Parry am eglurhad am ryngwyneb y Gwasanaeth gyda'r Gwasanaethau Cymdeithasol (gan gyfeirio at Astudiaeth Achos 'Bryn' yn yr Asesiad Perfformiad Blynyddol). Esboniodd y PSTC Roberts fod y Gwasanaeth yn cael cysylltiad gyda'r Gwasanaethau Cymdeithasol mewn perthynas ag Archwiliadau Diogel ac Iach ar gyfer unigolion bregus, ac mae hyn nawr yn cynnwys tynnu sylw at risgiau eraill (e.e. llithro, baglu a chwympo) yn ogystal â risgiau diogelwch tân. Yna, mae'r Gwasanaeth yn dangos y ffordd i unigolyn/unigolion at bartneriaid eraill megis Gofal a Thrwsio, y Gwasanaeth Iechyd Gwladol, Heddlu Gogledd Cymru, Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru, a gwirfoddolwyr yn y trydydd sector. Nid lle'r Gwasanaeth yw gwneud gwaith y Gwasanaethau Cymdeithasol, yn hytrach mae'n rhoi cymorth i'w hagenda ataliol.

6.4 Mynegodd y Cynghorydd Thomas bryder am erthygl yn y wasg am brofion larwm mwg gyda saith o blant, pryd nad oedd chwech o'r plant wedi clywed y larwm, a bod y seithfed plentyn wedi codi ac yna wedi mynd yn ôl i'w wely. Eglurodd y PSTC Roberts fod yr erthygl hon yn ymwneud ag astudiaeth flaenorol a oedd wedi dilyn 700 o blant ifanc ac wedi canfod nad yw un o bob saith, ar gyfartaledd, yn ymateb i larymau mwg. Esboniwyd bod hyn yn digwydd oherwydd bod plant ifanc yn clywed ac yn ymateb i amleddau is a systemau 'Mynegiant Llais', sy'n wahanol i oedolion. O safbwynt diogelwch, nid yw'r Gwasanaeth yn bryderus oherwydd mae cynllun dianc yn cael ei drafod a'i ddatblygu fel rhan o'r archwiliadau 'Diogel ac Iach', a rhoddir sylw i'r angen, pan fo plant ifanc ar yr aelwyd, i'w cael nhw allan os yw'r larymau mwg yn. Dylai oedolyn cyfrifol fod yn bresennol bob amser.

6.5 Holodd y Cynghorydd Thomas a oes mesurau'n bodoli i oresgyn y broblem dechnolegol. Dywedodd y PSTC Roberts fod technoleg larymau mwg (gan gynnwys amddiffynnydd un pwynt) yn esblygu drwy'r amser ac mae contractau cadwyni cyflenwi'r Awdurdod yn cael eu hadolygu a'u diweddaru yn unol â'r datblygiadau mewn technoleg newydd.

6.6 Dywedodd y Cynghorydd Lowe wrth yr Aelodau ei fod yntau wedi darllen yr erthygl yn y wasg, ac awgrymodd y dylid cofio faint o dechnoleg a dyfeisiau niferus y mae pobl ifanc yn delio â nhw. Diolchodd y Cynghorydd Lowe hefyd i'r gwasanaeth am ei ymateb i'r tân ym mecws Village Bakery ar Ystad Ddiwydiannol Wrecsam.

6.7 Mynegodd y Cynghorydd Shotton bryder fod cyllid wedi cael ei dynnu oddi ar y Tîm Cymorth Cymunedol, yn enwedig gan fod preswyliwr oedrannus wedi cael codwm ac wedi gorfod galw am ambiwlans a allai, fel arall, fod wedi cael ei defnyddio ar gyfer rhywbeth mwy difrifol. Dywedodd y PST fod goblygiadau pendant i'r etholwyr a bod effeithiau ar y gwasanaeth ambiwlans, ond ar ôl cyflwyno'r achos i Lywodraeth Cymru, nid oes fawr o awydd yn Llywodraeth Cymru i'r Gwasanaeth wneud y gwaith hwn. Fodd bynnag, mae posibilrwydd o hyd y bydd yn dod yn rhan o fap rôl y diffoddwyr tân (gan gyfeirio at y negodiadau ynghylch tâl) ond mewn ffordd wahanol i'r cynllun peilot yng Ngogledd Cymru. Er hynny, mae'n annhebygol y bydd y cyllid yn cael ei ailsefydlu.

6.8 Diolchodd y Cynghorydd Lowe i'r PST am fynd ar ôl mater y Tîm Cymorth Cymunedol ar ran yr Aelodau.

6.9 Diolchodd y Cynghorydd Davies i'r PSC Morris am ddogfen gynhwysfawr, gan gynnwys yr eirfa a oedd yn addysgiadol.

**6.10 PENDERFYNWYD cymeradwyo'r ddogfen, i'w chyhoeddi ar wefan yr Awdurdod.**

7 DATGANIAD O GYFRIFON ARCHWILIEDIG TERFYNOL 2018/19 AC ALLDRO AMCANOL 2019/20

7.1 Cadarnhaodd y Trysorydd fod Datganiad o Gyfrifon archwiliedig terfynol 2018/19 wedi cael ei gymeradwyo gan y Panel Gweithredol ar 29 Gorffennaf 2019. Roedd yr adolygiad o'r gwariant cyfalaf ar gyfer 2019/20 wedi cael ei gwblhau, gan ryddhau adnoddau ar gyfer gofynion eraill.

7.2 Ychwanegodd y PST fod y rhagolygon o ran gyllideb refeniw wedi cael eu cynorthwyo gan y gostyngiad yn y gwariant o'i gymharu â haf 2018. Fodd bynnag, gallai goblygiadau fod yn gysylltiedig â gaeaf gwael a llifogydd difrifol.

7.3 Diolchodd y Cadeirydd i'r swyddogion am gyflwyno'r cyfrifon ar amser, o ystyried y dyddiad cynharach a gyflwynwyd eleni ar gyfer yr adroddiadau ariannol.

7.4 **PENDERFYNWYD nodi'r ffaith fod Datganiad o Gyfrifon archwiliedig terfynol 2018/19 wedi cael eu cymeradwyo.**

8 RHEOLI'R TRYSORLYS A DANGOSYDDION DARBODUS 2019/20

8.1 Fe wnaeth y Trysorydd gyflwyno'r adroddiad, gan gadarnhau ei fod wedi cael ei adolygu gan y Pwyllgor Archwilio cyn y cyfarfod. Diolchodd y Trysorydd i'r Aelodau am addasu i'r newid yn yr amserlen ac am gyfuno cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a chyfarfod yr Awdurdod llawn ar yr un diwrnod.

8.2 Canmolwyd S Forrest gan y Cynghorydd Lloyd-Williams am greu adroddiad clir.

**8.3 PENDERFYNWYD cymeradwyo'r adroddiad yn unol ag argymhelliad y Pwyllgor Archwilio.**

9 POLISI DISGRESIYNOL CYNLLUN PENSIWN LLYWODRAETH LEOL

9.1 Fe wnaeth y PSC MacArthur amlinellu'r elfennau disgresiynol o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, a sut bydd y polisi'n darparu cysondeb, er bod y rheolau ar gyfer disgresiynau yn rhai rhagnodol gan mwyaf.

9.2 Mae'r 18 disgresiwn yn amrywiol, ond gellid eu grwpio gyda'i gilydd yn unol â'u natur, fel yn Atodiad 1.

9.3 Fe wnaeth y PSC MacArthur amlinellu pob disgresiwn, ynghyd â goblygiadau derbyn pob un fel rhan o'r polisi.

Ar yr adeg hon, aeth y Cynghorydd Lowe allan o'r Siambr.

9.4 Holodd y Cynghorydd Davies beth oedd ymateb yr undebau i'r cynigion. Eglurodd y PSC MacArthur fod y disgresiynau'n eithaf safonol yn y sector cyhoeddus felly nid ymgynghorwyd â'r undebau.

9.5 **PENDERFYNWYD cymeradwyo'r penderfyniadau sy'n gymwys i bob elfen ddisgresiynol fel yr amlinellir yn Atodiad 1, i'w hymgorffori ym Mholisi Disgresiynol y Gwasanaeth ar gyfer y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.**

10 DYFARNIAD CYFLOG Y PRIF SWYDDOGION 2019

10.1 Mae'r cyrff negodi wedi dod i'r cytundebau canlynol ar gyfer 2019:

i. Mae Cyd-gyngor yr NJC wedi cytuno i gynnydd o 2% yn gymwys o 1 Ionawr 2019 ymlaen. Mae'r cytundeb hwn yn berthnasol i'r Prif Swyddog Tân a'r Prif Swyddogion Tân Cynorthwyol.

ii. Yn ystod Gorffennaf 2018, cadarnhaodd y NJC ddull dwy flynedd ar gyfer y cyfnodau yn dechrau ar 1 Ebrill 2018 ac 1 Ebrill 2019. Roedd hyn yn cynnwys 2% o ddyfarniad o 1 Ebrill 2019 ymlaen. Mae'r cytundeb hwn yn berthnasol i'r Prif Swyddogion Cynorthwyol a'r Trysorydd.

10.2 **PENDERFYNWYD nodi a gweithredu'r trefniadau uchod.**

11 DIWEDDARIAD GAN GRŴP Y GWASANAETH TÂN CYNHWYSOL

11.1 Mynegodd y Cynghorydd Lloyd-Williams ei boddhad ei bod yn gallu cadeirio'r grŵp, a diolchodd yn ffurfiol i aelodau'r grŵp am eu hymroddiad.

Ar yr adeg hon, daeth y Cynghorydd Lowe yn ôl i mewn i'r Siambr.

11.2 Mae cynnydd da wedi cael ei wneud dros y 12 mis diwethaf mewn perthynas â strategaethau, ac mae'r grŵp bellach yn fwy amrywiol ac yn cynnwys diffoddwr tân o'r System RDS a phrentis benywaidd. Mae rhaglen waith (Atodiad 1) wedi cael ei ffurfio i ganolbwyntio ar y strategaethau tymor hir.

11.3 Diolchodd y Cadeirydd i'r Cynghorydd Lloyd-Williams am yr adroddiad.

11.4 **PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad.**

12 Y TREFNIADAU LLYWODRAETHU A CHYLLID AR GYFER YR ATAau YNG NGHYMRU

12.1 Rhoddodd y PST wybod i'r Aelodau am y cynnydd diweddaraf mewn perthynas â chynigion Llywodraeth Cymru i newid y trefniadau llywodraethu a chyllid. Atgoffwyd yr Aelodau gan y PST fod yr ymatebion o'r papur ymgynghori wedi cael eu darparu gan Lywodraeth Cymru ar 18 Gorffennaf 2019, gan gyhoeddi 59 o'r 60 ymateb.

12.2 Cyfarfu'r Dirprwy Weinidog gyda'r Prif Swyddogion Tân a'r Cadeiryddion ym mis Mehefin, ac yna rhyddhaodd hi adroddiad cynnydd ar y Papur Gwyn fel rhan o bapur mwy cyffredinol ar y fframwaith cenedlaethol. Ni fydd dau gynnig yn cael eu symud ymlaen (fel yr amlinellwyd ym mharagraff 12) ac mae Llywodraeth Cymru wedi dweud y byddant yn dal i symud ymlaen â rhai o'r newidiadau arfaethedig megis rheoli perfformiad, gwneud yr ATAau yn awdurdodau praeseptio, a gostwng nifer aelodau'r ATAau.

12.3 Rhoddodd y Clerc wybod i'r Aelodau fod galluedd deddfwriaethol y Cynulliad yn gyfyngedig felly gallai'r amserlenni lithro i 2020. Cadarnhaodd y PST y byddai praeseptio yn annhebygol o gael ei gyflwyno yn ystod oes y llywodraeth bresennol.

12.4 Gofynnodd y Cynghorydd Davies a oedd y Gweinidog yn bwriadu ymweld â'r Awdurdod, a chadarnhaodd y PST ddyddiad ganol mis Hydref.

12.5 Roedd yr Aelodau'n falch o nodi nad yw dau gynnig wedi cael eu symud ymlaen.

**12.6 PENDERFYNWYD nodi cynnwys y diweddariad.**

13 PARATOI AR GYFER YMADAWIAD Y DEYRNAS UNEDIG Â'R UNDEB EWROPEAIDD (BREXIT)

13.1 Fe wnaeth y PSTC Fairhead amlinellu paratoadau'r Awdurdod ar gyfer cadwyni cyflenwi'r fflyd a thechnoleg gwybodaeth, a staff a allai gael eu heffeithio oherwydd eu cenedligrwydd UE nhw neu genedligrwydd UE eu teulu.

13.2 Mae'r Awdurdod wedi bod yn cymryd rhan yn y Fforwm Lleol Cymru Gydnerth gyda phartneriaid eraill er mwyn ystyried y trefniadau wrth gefn ar gyfer y senario waethaf ac i geisio lleihau'r risgiau. Roedd adroddiadau'n cael eu darparu bob wythnos i Lywodraeth Cymru tan 17 Hydref 2019, a byddai hyn yn cynyddu i bob dydd ar ôl hynny.

13.3 Mynegodd y Cynghorydd Shotton bryder am adroddiad diweddar Operation Yellowhammer, yn enwedig o ran cyflenwadau meddygol a phrinder bwyd a gofynnodd pa mor barod yw'r Awdurdod. Cadarnhaodd y PSTC Fairhead fod cynlluniau'n cael eu gwneud ar gyfer y senario waethaf, ond ychwanegodd y Cadeirydd fod rhai o'r materion y tu hwnt i derfynau'r Awdurdod.

13.4 Diolchodd y Cynghorydd Davies i'r PSTC Fairhead am ei waith rhagorol ar y mater hwn.

13.5 Mynegodd y Cynghorydd Roberts bryderon am gyllid a threuliau, a gofynnodd a oes unrhyw ffordd o gael arian ar gyfer Brexit. Esboniodd y PSTC Fairhead fod yr Awdurdod yn cynllunio ar gyfer Brexit fel rhan o'i reolaeth fewnol o barhad busnes a bod y Fforwm Lleol Cymru Gydnerth wedi cael rhywfaint o gyllid gan Lywodraeth Cymru.

**13.6 PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad.**

14 NEGODIADAU CENEDLAETHOL AC ARGYMHELLION AR GYFLOGAU DIFFODDWYR TÂN (AR LAFAR)

14.1 Rhoddodd y PST yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau gan ddweud bod trefniadau wedi cael eu gwneud, fel rhan o'r negodiadau, i Brif Swyddogion Tân a Chadeiryddion gwrdd â chynrychiolwyr cyflogwyr Cyd-gyngor yr NJC i ddarparu mewnbwn ym Manceinion ar 17 Gorffennaf 2019. Yn dilyn y cyfarfod hwnnw, mae'r Cyd-gyngor wedi darparu Cylchlythyr i'r cyflogwyr a'r gweithwyr, yn dweud bod cyfnod pellach o ymgynghori wedi digwydd, bod 2% o ddyfarniad cyflog wedi cael ei gynnig i'r gweithwyr ar gyfer 2019 a bod Undeb yr FBU wedi derbyn hwnnw.

14.2 Cafwyd seibiant yn y trafodaethau am ehangu'r swydd a'r cynnydd cysylltiedig yn y tâl. Fodd bynnag, mae'r Cyd-gyngor wedi dweud bod y ddwy ochr yn dal wedi ymrwymo i'r egwyddorion sy'n ymwneud ag ehangu'r swydd.

**14.3 PENDERFYNWYD nodi'r diweddariad.**

15 MATERION BRYS

15.1 Nid oedd unrhyw faterion brys.

RHAN II

16 PENODI AELODAU ANNIBYNNOL I BWYLLGOR SAFONAU'R AWDURDOD

16.1 Yn dilyn dyfodiad swydd wag ar y Pwyllgor Safonau i un Aelod Annibynnol, a'r ffaith fod yr Aelod Annibynnol sy'n cadeirio'r Pwyllgor yn ymddeol yr haf nesaf, rhoddwyd ystyriaeth i ddau ymgeisydd da iawn. Yn dilyn trafodaeth:

**16.2 PENDERFYNWYD derbyn bod:**

**(i) Gareth Pritchard yn cael ei benodi i'r swydd wag am bedair blynedd (tan fis Medi 2023);**

**(ii) pumed swydd ychwanegol fel Aelod Annibynnol yn cael ei chreu ar y Pwyllgor Safonau hyd oni fydd Cadeirydd presennol y Pwyllgor yn ymddeol, pryd bydd y Pwyllgor yn cael pedwar Aelod Annibynnol eto;**

**(iii) Gill Murgatroyd yn cael ei phenodi i'r Pwyllgor;**

**(iv) llythyr yn cael ei anfon at Noela Jones i ddiolch am ei chymorth yn y broses recriwtio.**